# Datganiad Blynyddol am Uniondeb Ymchwil

2018-19

Swansea University
Prifysgol Abertawe

## RHAGARWEINIAD

***Dyma 4ydd Datganiad Blynyddol y Brifysgol am Uniondeb Ymchwil ac mae'n berthnasol i'r cyfnod academaidd 2018/19***

## Adroddiad cynnydd 2018-19:

### 1. Is-Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol

Parhaodd is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol i gwrdd yn ystod y flwyddyn er mwyn darparu trosolwg strategol ar gyfer nifer o bolisïau a phrosesau'r Brifysgol a darparu cymorth/cyngor/arweiniad i Golegau/Ysgolion. Derbyniwyd adroddiadau cynnydd gan bwyllgorau Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Coleg ac is-bwyllgorau eraill megis AWERB, Uned Dreialon Abertawe, llywodraethu Meinweoedd Dynol, Sefydliad Ymchwil i Foeseg a'r Gyfraith. Yn ogystal, derbyniodd y pwyllgor ddiweddariadau gan adrannau Gwasanaethau Proffesiynol, yn enwedig mewn perthynas â chydymffurfiaeth â 'Prevent', ymchwil sy'n sensitif o ran diogelwch, GDPR ac Ymchwil, Rheoli Data Ymchwil, mynediad Agored, Diogelu a gweithio gyda Phlant ac Oedolion Diamddiffyn a Dilyniant Busnes a Gwydnwch.

### 2. Pwyllgorau Moeseg a Llywodraethu Ymchwil Colegau

Mae gan bob Coleg/Ysgol bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil gweithredol sy'n cwrdd yn rheolaidd. Mynychodd Cadeiryddion Colegau/Ysgolion bwyllgorau, gan ddarparu adroddiadau rheolaidd i Bwyllgor y Brifysgol. Lle bynnag yr oedd angen, parhaodd is-bwyllgorau ychwanegol i gefnogi pwyllgorau Moeseg Ymchwil y Colegau/Ysgolion.

### 3. Penodiadau

Ym mis Awst 2018, penodwyd Deon Academaidd dros Uniondeb Ymchwil. Mae'r Deon yn darparu arweinyddiaeth academaidd a chyfeiriad strategol er mwyn datblygu diwylliant ymchwil sy'n dryloyw ac sy'n defnyddio arfer gorau gan gefnogi ymrwymiad y Brifysgol i'r 'Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil.' Mae'n cynnig gweledigaeth ac arweiniad, ac yn gweithredu fel hyrwyddwr uniondeb ymchwil i sicrhau y cydymffurfir â pholisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol ynghylch moeseg a llywodraethu ymchwil, bod staff, myfyrwyr ac ymchwilwyr gwadd yn eu rhoi ar waith.

Trosglwyddwyd Rheolwr Uniondeb Ymchwil, a oedd yn gweithio yn Swyddfa'r Is-ganghellor yn flaenorol, i REIS i fod yn rhan o Uned Uniondeb Ymchwil arfaethedig. Mae'r rôl hon yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. Mae deiliad y swydd yn datblygu polisïau am uniondeb ymchwil sy'n cefnogi'r Colegau wrth eu cynnal, a sicrhau y cânt eu rhoi ar waith a chyflawni gofynion archwilio. Ynghyd â chynnig gwasanaeth i is-bwyllgor Moeseg Ymchwil a Llywodraethu'r Brifysgol, mae deiliad y swydd yn cydlynu adroddiadau a diweddariadau rheolaidd gan Bwyllgorau Moeseg Ymchwil a Llywodraethu'r Coleg ac yn gweithredu fel Cyswllt Sefydliadol ar gyfer derbyn a chydlynu achosion o Gamymddygiad Ymchwil.

Hefyd ym mis Awst 2018, penodwyd Swyddog Llywodraethu Ymchwil sy'n gyfrifol am greu, rheoli a diweddaru prosesau Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol yn unol â Fframwaith Polisi y DU dros Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2017). Gan weithio ar y cyd â Deon Academaidd Uniondeb Ymchwil, mae'r Swyddog Llywodraethu Ymchwil yn adolygu ac yn cymeradwyo ceisiadau am nawdd ac mae'n aelod o bwyllgorau amrywiol yn y GIG ac

yn y Brifysgol sy'n adolygu ac yn cymeradwyo ceisiadau am nawdd. Mae gan rôl y Swyddog Llywodraethu Ymchwil ffocws penodol ar sicrhau diogelwch cyfranogwyr ymchwil, gan sicrhau mai hyn sy'n cael y flaenoriaeth fwyaf mewn unrhyw gais am nawdd.

## 4. **Diweddariadau Eraill**

- Mynychodd y Deon Academaidd ac aelodau o'r uned uniondeb academaidd gyfarfodydd pwyllgorau Moeseg a Llywodraethu amrywiol yn y Coleg i drafod ymagweddau at adolygu ceisiadau moesegol. Trafodwyd hefyd y syniad o ymgymryd ag ymagwedd asesu 'ar sail risg' i fonitro prosiectau.
- Ymwelodd Cyfarwyddwr Cysylltiol REIS a'r Deon Academaidd, ynghyd ag aelodau o'r tîm Uniondeb Ymchwil, â Phrifysgolion Bryste a Chaerdydd i ymchwilio i ddulliau arfer gorau mewn perthynas â rheoli a llywodraethu uniondeb ymchwil.
- Anogodd y Colegau i staff ymgymryd â hyfforddiant uniondeb ymchwil gorfodol ar-lein ('Epigeum') drwy anfon e-byst rheolaidd yn atgoffa pob aelod o staff gweithredol o ran ymchwil a sicrhau y gwneir yr wybodaeth am yr hyfforddiant yn hygyrch i staff newydd yn ystod y broses sefydlu.
- Parhaodd y Deon Academaidd a'r Rheolwr Uniondeb Ymchwil i weithio gyda'r swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig i archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno hyfforddiant uniondeb ymchwil i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Darparwyd hyfforddiant uniondeb ymchwil ar-lein Epigeum, a oedd yn awr o hyd, i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig drwy'r Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig.

- Lluniodd Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol ganllawiau i ymchwilwyr, ac roedd hyfforddiant gorfodol ar y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), Gwrth-lwgrwobrwyo a Gwyngalchu Arian yn gymorth i helpu ymchwilwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau.

- Adolygwyd polisïau eraill o fewn y fframwaith polisïau Uniondeb Ymchwil i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth, gofynion rheoleiddio ac arferion ymchwil http://www.swansea.ac.uk/research/researchintegrity/research-integrity-policies/

  Cymeradwyodd is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol, y polisïau newydd canlynol:

- P1617-635: Polisi ymchwil gyda phlant a phobl ifanc
- P1819-134: Côd Ymarfer ar Awduraeth.
- P1819 – Polisi ar ymchwil gydag Oedolion Diamddiffyn
- P1819-136: Polisi Diogelu Data Uniondeb Ymchwil
- Arweiniad ar Wiriadau Datgelu a Gwahardd a Storio

- Ehangwyd y system ar-lein ar gyfer cymeradwyaeth foesegol (Infonetica), a brynwyd gan yr Adran Seicoleg, yn ystod 2017-18 i bob maes pwnc yng Ngholeg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd. Mae'r system yn darparu mwy o effeithiolrwydd, diogelwch a safoni i gannoedd o geisiadau myfyrwyr a dderbynnir gan y Coleg, ac mae'n helpu i leddfu baich gweinyddol y broses adolygu moesegol.

- Cyflwynodd y Coleg Gwyddoniaeth, sydd wedi datblygu system adolygiad moesegol fewnol i gynorthwyo adrannau wrth gynnal adolygiad moesegol o geisiadau ymchwil, y system ymhellach i feysydd pwnc yn y Coleg. Cyflwynodd aelodau o dîm rhaglennu'r Coleg giplun o'r system ar-lein i aelodau o bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol.

- Dangosodd Colegau eraill ddiddordeb mewn treialu'r system, gan gynnwys Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau a gytunodd i'w threialu o 2019-20. Byddai data o gynllun treialu o'r fath yn fuddiol wrth asesu natur ddefnyddiadwy gweithredu systemau adolygu moesegol y brifysgol gyfan ar-lein.

- Yn ogystal â'r hyfforddiant ar-lein, mae pecyn ***hyfforddiant mewnol*** ar-lein ar wahân ar uniondeb ymchwil yn parhau ar gael i staff sy'n gwneud ymchwil drwy'r gwasanaethau datblygiad a hyfforddiant staff. Mae'r rhaglen dysgu dros ginio yn cyflwyno ymchwilwyr i bolisïau'r Brifysgol ar uniondeb ymchwil, yn darparu gwybodaeth

ac arweiniad ar gynnal adolygiad moesegol o ymchwil, noddi ymchwil, gweithio gyda meinweoedd dynol a diogelu mewn addysg uwch.

- Adnewyddwyd trwydded y brifysgol ar gyfer y pecyn hyfforddi ar-lein 'Diogelu mewn Addysg Uwch' am flwyddyn arall (2018/19). Mae'r dull hyfforddi hwn yn cynnig gwybodaeth a chanllawiau defnyddio ar ofynion rheoleiddio i ymchwilwyr sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion diamddiffyn
- Yn ystod 2017/18, cynhaliwyd adolygiad o'r tudalennau gwe ar uniondeb ymchwil bresennol, a datblygwyd cynnwys ar gyfer gwefan newydd y Brifysgol. Nod yr adolygiad oedd sicrhau ei bod yn haws cael gafael ar wybodaeth a theilwra cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac allanol. Aeth y tudalennau gwe newydd yn fyw yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19.
- Parhaodd y Brifysgol danysgrifo i Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO). Aeth Deon Academaidd Uniondeb Ymchwil a'r Rheolwr Uniondeb Ymchwil i gynhadledd flynyddol UKRIO 2019 yn Llundain, gan gasglu gwybodaeth ddefnyddiol. Bu'r gynhadledd yn gyfle i rwydweithio â chydweithwyr o sefydliadau eraill yn y maes a dysgu am arfer gorau.

**CAMYMDDYGIAD MEWN YMCHWIL**

- Mae gan y Brifysgol sianelau sefydledig a chyfrinachol er mwyn rhoi gwybod am honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil drwy fynediad cyfyngedig i fewnflwch e-bost camymddygiad mewn ymchwil.
- Mae'r Brifysgol wedi ceisio arweiniad arbenigol gan UKRIO wrth ddatblygu polisïau a phrosesau i ymdrin â honiadau o gamymddygiad, er mwyn sicrhau bod y prosesau ymchwilio yn gadarn, yn dryloyw ac yn deg.
- Mae'r prosesau ymchwilio i gamymddygiad wedi'u rhannu'n dri cham yn fras: cam rhagarweiniol; cam sgrinio ac, os oes angen, ymchwiliad ffurfiol. Gellir diystyried yr honiad ar unrhyw gam os tybir nad oes digon o wybodaeth; neu os nad yw o fewn cwmpas y diffiniad o gamymddygiad mewn ymchwil neu os na chadarnhawyd yr honiad oherwydd ei natur wamal, flinderus neu faleisus. Os nad yw'r honiad yn un difrifol, gellir ymdrin ag ef ar y cam sgrinio drwy brosesau cymhwysedd, hyfforddiant, addysg neu brosesau eraill nad ydynt yn ddisgyblaethol, yn hytrach na thrwy ymchwiliad ffurfiol.
- Y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu yw'r unigolyn a enwir yn y Brifysgol sy'n gyfrifol am dderbyn ac ymateb i honiadau ynghylch camymddygiad mewn ymchwil.
- Mae manylion am y prosesau hysbysu ar gael ar y wefan yn http://www.swansea.ac.uk/research/researchintegrity/researchmisconduct/
- Yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19, atgoffwyd staff am y gweithdrefnau ar gyfer adrodd am gamymddygiad ymchwil drwy e-bost i'r holl staff gan y Dirprwy Is-ganghellor Uwch (Ymchwil ac Arloesi). Darparodd yr e-bost gopi i staff o'r Polisi ar gyfer adrodd am gyhuddiadau o Gamymddygiad Ymchwil, ac ymchwilio iddynt, a'r Côd Ymarfer ar gyfer Awduraeth.
- Yn ystod 2018/19, derbyniodd y Brifysgol y cyhuddiadau canlynol o dan weithdrefnau Camymddygiad Ymchwil y Brifysgol:

| Honiad | Natur y camymddygiad honedig | Canlyniad |
|---|---|---|
| 1 | Anghytundeb am awduraeth | Datryswyd drwy gyfryngu |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | Anghytundeb am awduraeth a llên-ladrad | Cynhaliwyd ymchwiliad gan y Coleg. Cyfeiriwyd y mater at y Cofrestrydd. Sefydlwyd panel sgrinio. Cyfeiriwyd i'w archwilio. Ymgynullwyd y panel ymchwilio ac mae'r ymchwiliad yn parhau. |

**Heriau ar gyfer 2019/20**:

- **Hyfforddiant**

Bydd contract yr hyfforddiant ar-lein mewn uniondeb ymchwil (Epigeum), a brynwyd ym mis Medi 2016, yn dod i ben ym mis Awst 2019. Mae'r Brifysgol yn ystyried bod uniondeb ymchwil i staff a myfyrwyr yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau y caiff ymchwil ei chynnal mewn amgylchedd agored a thryloyw. O ganlyniad, cymeradwyodd Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol brynu'r hyfforddiant Uniondeb Ymchwil Epigeum am gyfnod pellach o 3 blynedd (tan fis Awst 2022).

- **System Adolygu Moesegol Ar-lein**

Bydd meddu ar system ar-lein effeithiol at ddibenion adolygiadau moesegol o’r holl geisiadau ymchwil yn helpu i leihau llwyth gwaith gweinyddol staff. Bydd system ar-lein yn cynnig tryloywder ac yn gwneud hi'n haws i lunio adroddiadau er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio ac yn monitro. Cwrddodd y Deon Academaidd ag Uwch-swyddog Digidol y Brifysgol i ymchwilio i opsiynau ar gyfer creu adnoddau ar gyfer y system cymeradwyaeth foesegol ar-lein. Cytunwyd y byddai data o'r system Infonetica (Coleg y Gwyddorau Iechyd a Dynol) a system y Coleg Gwyddoniaeth (y Coleg Gwyddoniaeth a Choleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau) yn cael eu cymharu cyn penderfynu ar system brifysgol gyfan.

- **Ymgysylltu a chynyddu ymwybyddiaeth o uniondeb ymchwil**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwnaed ymdrechion anferth i gyflawni a chefnogi ymrwymiad y Brifysgol i'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. O ganlyniad, mae'r Brifysgol mewn sefyllfa well nag erioed o ran polisïau, prosesau, protocolau, hyfforddiant a'r wybodaeth mae'n eu darparu i staff a myfyrwyr. Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd i sicrhau 'newid diwylliannol' i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith ymchwilwyr o fanteision uniondeb mewn ymchwil.

Felly, bydd y pwyslais mewn gweithgareddau ymchwil yn y flwyddyn i ddod ar weithgareddau sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o uniondeb ymchwil ymhlith staff a myfyrwyr. Wrth weithio ar y cyd â'r Gwasanaethau Academaidd, REIS, GGS a'r Brifysgol yn ehangach, gallu cynigion o'r fath gynnwys cynnal sesiynau 'cinio a dysgu' neu 'frecwast' rheolaidd ar y ddau gampws, cynnal gweithdai hanner dydd ar uniondeb ymchwil ac, o bosib, gynhadledd flynyddol ar uniondeb ymchwil gan wahodd siaradwyr gwadd o Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO) a phrifysgolion eraill o Grŵp Russel sydd ar flaen y gad o ran rhoi'r Concordat ar waith yn eu sefydliadau. Bydd y gweithgareddau hyn yn galw am adnoddau ariannol a staffio, felly byddai rhaid iddynt fod yn rhan o'r broses cynllunio busnes.

- **Cynyddu ymwybyddiaeth o brosesau rhoi gwybod am Gamymddygiad mewn Ymchwil**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu adegau pan nad oedd staff yn y sefydliad neu unigolion/cyrff allanol yn sicr o'r prosesau ar gyfer rhoi gwybod am amheuon o gamymddygiad mewn ymchwil. Gofynnodd rhai aelodau staff am arweiniad i'w helpu i ddeall a fyddai achos penodol yn cydweddu â'r diffiniad o gamymddygiad mewn ymchwil. Erbyn hyn, mae'r dudalen we ar uniondeb ymchwil yn cynnwys cyfeiriad e-bost a chyswllt penodol i roi gwybod am honiadau o'r fath. Byddai'n ddoeth, fodd bynnag, sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu mor eang â phosib yn y Brifysgol, a gellid sefydlu grŵp o hyrwyddwyr uniondeb ymchwil i ddarparu cyngor/cyfeiriad cyfrinachol i'r rhai sydd am gyflwyno honiad. Gellid llunio polisi 'Datgelu Camarfer' hefyd i sicrhau bod achwynwyr yn ddienw a'u diogelu rhag dial yn sgil mynegi pryder.

- **Llywodraethu Ymchwil a Noddi Ymchwil:**

Sefydlu prosesau a phrotocolau llywodraethu nawdd ymchwil ymhellach, gwefan ymchwil gwybodaeth glinigol gyda pholisïau, prosesau, siart llif a gwybodaeth i staff, hyfforddiant priodol ar weithdrefnau.

Cynorthwyo Prifysgol Abertawe fel sefydliad i gynnig ymchwil anfasnachol mewn lleoliad gofal iechyd ac ymchwilio i'r adnoddau y mae eu hangen ar gyfer cymhwyso prosesau monitro fel dull o sicrhau ansawdd. Canolbwyntio ar sgiliau ar gyfer monitro a chynnig dealltwriaeth i Brif Ymchwilwyr sy'n seiliedig ar fonitro risg er mwyn sicrhau ymchwil o safon uchel.

***Gwybodaeth bellach:***

Paratowyd y datganiad hwn gan y Rheolwr Uniondeb Ymchwil ac fe'i cymeradwywyd ym mis Mehefin 2019 gan Bwyllgor Strategaeth Ymchwil ac Arloesi y Brifysgol (CRIS). Os oes gennych ymholiadau neu os hoffech wybodaeth am faterion uniondeb ymchwil, e-bostiwch: researchintegrity@abertawe.ac.uk.

*Diwedd yr adroddiad*